Swyddogaeth Graffu
Cyngor Sir Caerfyrddin

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018/19

C Y N N W Y S

Rhagair **3**

Craffu yn Sir Gaerfyrddin **4**

Y Pwyllgorau Craffu **5**
Pwyllgor Craffu - Cymunedau 5
Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant 6
Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd 8
Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau 9
Y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd 10

Gweithgareddau eraill yn ystod 2018/19 **11**
Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu 11
Sesiynau Datblygu i'r Aelodau 11
Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW 12
Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Bae Abertawe 12
Rhwydwaith Rheolwyr Craffu Cymru 12
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 13

Edrych ymlaen at 2019/20 **13**

Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu **14**

Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn ystod 2018/19 **16**

Rhestr Termau **17**

Rhagair

Croeso i Adroddiad Blynyddol eleni ar sut y mae'r Pwyllgorau Craffu amrywiol yn gweithio o fewn y Cyngor. Mae'r holl Bwyllgorau Craffu wedi bod yn gweithio'n galed dros flwyddyn ddiwethaf y Cyngor (2018/2019) ac maent bellach yn ystyried eu blaenraglenni gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod (2019/2020). Y gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ddefnyddiol i chi o'r hyn sy'n digwydd o fewn swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mae gan bob pwyllgor ei faes cyfrifoldeb ei hun. Bydd aelodau'r Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau yn parhau i ystyried ein rhan ym Margen Ddinesig Bae Abertawe drwy Bentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli, ynghyd â sut y mae ein cwmnïau hyd braich yn perfformio.

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd adolygiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen rhagorol dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ystyried unigrwydd. O ganlyniad mae canfyddiadau'r Pwyllgor wedi'u cyflwyno i Fwrdd Gweithredol y Cyngor a chafodd eu derbyn â diddordeb mawr. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn nodi cynigion a pholisïau ar gyfer y defnydd o'r holl dir lleol rhwng 2018 a 2033, ac mae'n parhau i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu - Cymunedau. Mae'r Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd wedi bod yn dadansoddi sut y mae'r gwaith o gynnal a chadw perthi ac ymylon ffyrdd ledled ein sir yn cael ei reoli, ymysg eitemau eraill. Yn dilyn gwaith y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant ynghylch darpariaeth blynyddoedd cynnar y llynedd, mae wedi parhau i ymweld â chynifer o ysgolion â phosibl er mwyn deall eu materion a'u pryderon.

Bob chwarter, mae'r holl Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn cyfarfod ac rydym yn adolygu'r meysydd canlynol ar hyn o bryd:

1) y gallu i we-ddarlledu cyfarfodydd;
2) sut y gellir cyflwyno ffigurau'r gyllideb i'r Pwyllgorau Craffu yn fwy prydlon;
3) sut y mae gwybodaeth sydd wedi'i heithrio/gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei rhannu â'r Pwyllgorau Craffu.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ystyried swyddogaeth graffu Sir Gaerfyrddin yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rydym wedi dechrau gwneud cynnydd yn sgil rhai o'i hawgrymiadau i wella'r swyddogaeth graffu yma yn Sir Gaerfyrddin.

Mae datblygiad aelodau a swyddogion hefyd yn allweddol i swyddogaeth graffu lwyddiannus ac mae'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion wedi cytuno eleni fod angen llunio rhagor o hyfforddiant i'r aelodau ac y dylid ystyried hyfforddiant craffu arbenigol ar gyfer swyddogion.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r holl swyddogion sydd wedi rhoi cymorth, cyngor a chyfarwyddyd inni drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig swyddogion yr Uned Gwasanaethau Democrataidd.

Y Cynghorydd Giles Morgan
Cadeirydd Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu
Hyrwyddwr Craffu Cyngor Sir Caerfyrddin

Craffu yn Sir Gaerfyrddin

Mae'r broses Graffu yn chwarae rôl allweddol wrth wella'r gwasanaethau y mae pobl a phlant Sir Gaerfyrddin yn eu defnyddio. Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau yn cael eu gwneud gan y Bwrdd Gweithredol o 10 cynghorydd sir. Mae'r broses Graffu yn rhoi cyfle i'r 64 o gynghorwyr eraill ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol'. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn amlygu'r blaenoriaethau cyfredol, yn hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio gyda chyrff allanol. Dyma brif rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgorau craffu:

- Archwilio pa mor dda y mae'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor yn perfformio.
- Dwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy'n agored ac yn dryloyw.
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor.
- Adolygu penderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol lle bo hynny'n briodol.
- Cynorthwyo'r Bwrdd Gweithredol i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisïau.
- Craffu ar strategaeth y gyllideb refeniw a'r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o'r broses ymgynghori.
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at ystyried materion a allai effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Cyngor a'r sir gyfan.

Gall pob cynghorydd nad yw ar y Bwrdd Gweithredol gael ei benodi ar o leiaf un pwyllgor craffu, gan ddibynnu ar ei ddiddordebau neu'i arbenigedd.

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin bum Pwyllgor Craffu:

- Cymunedau
- Addysg a Phlant
- Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd
- Polisi ac Adnoddau
- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Fel rheol, mae'r pwyllgorau'n cyfarfod 8 gwaith y flwyddyn, bob chwe wythnos, i ystyried materion ac adroddiadau a gynhwysir mewn blaenraglen waith craffu a lunnir ar ddechrau blwyddyn y cyngor. Trefnir cyfarfodydd ychwanegol o bryd i'w gilydd os bydd angen, ac weithiau cynhelir cyfarfodydd arbennig neu gyfarfodydd ar y cyd i ystyried materion brys neu faterion trawsbynciol.

Mae cyfansoddiad y Pwyllgorau Craffu yn wleidyddol gytbwys i adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor cyfan, cyhyd ag y bo modd. Penodir Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor ar ddechrau pob blwyddyn cyngor a hynny am gyfnod o flwyddyn (e.e. Mai 2018 hyd Ebrill 2019). Maent hefyd yn cymryd rhan yn Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu sy'n cwrdd bob chwarter i oruchwylio cyfeiriad strategol y broses Graffu.

Y Pwyllgorau Craffu

Adroddiadau Monitro / Eitemau Craffu Safonol

Mae pob Pwyllgor Craffu yn cael yr adroddiadau monitro canlynol, yn ôl yr arfer, ac yn cytuno ar amlder a ffurf yr adroddiadau hyn:-

Adroddiadau Monitro Perfformiad – Un o brif rolau Pwyllgor Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau sydd o fewn ei faes gorchwyl. Maent yn gwneud y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad chwe-misol, sy'n rhoi darlun cytbwys o berfformiad. Yn ogystal, mae'r pwyllgorau yn cael cynlluniau busnes a gwybodaeth ynghylch canmoliaeth a chwynion.

Adroddiadau Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf – Mae pob Pwyllgor Craffu yn cael adroddiadau chwe-misol ynghylch cyllidebau cyfalaf a refeniw y gwasanaethau sydd o fewn eu cylch gwaith.

Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gamau Gweithredu ac Atgyfeiriadau – Yn ystod blwyddyn y cyngor, mae aelodau'r Pwyllgorau Craffu yn gwneud nifer o geisiadau am eitemau ychwanegol i'w helpu i gyflawni'u rôl graffu. Caiff adroddiadau chwarterol ac adroddiadau atgyfeirio eu llunio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ar sail y camau gweithredu y gofynnir amdanynt a'r argymhellion.

Y Pwyllgor Craffu - Cymunedau

Mae gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau 13 o aelodau ac mae ei gylch gwaith yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Tai – Cymdeithasol a Sector Preifat
- Polisi Cynllunio
- Adfywio Cymunedol yn cynnwys datblygu ffisegol a gwledig
- Datblygu Economaidd
- Rhaglenni Ewropeaidd a Rhaglenni sy'n cael eu Hariannu'n Allanol
- Llyfrgelloedd
- Y Celfyddydau a Theatrau
- Amgueddfeydd ac Archifau
- Cyfleusterau Cefn Gwlad
- Chwaraeon, Hamdden ac Adloniant

Cyfarfodydd y Pwyllgor – Yn ystod 2018/19, yn ogystal â'i adroddiadau monitro rheolaidd, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Gorchymyn Datblygu Lleol Drafft – Canol Tref Llanelli
- Strategaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer y Celfyddydau
- Adroddiad Monitro Blynyddol 2017/18 – Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin
- Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chanmoliaeth 2017/18
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllunio)
- Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 – Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir

- Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol
- Cynlluniau Busnes Adrannol 2019/20 - 2022
- Canllaw Dylunio Priffyrdd Sir Gaerfyrddin
- Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai 2019/20
- Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (STSG+) – 'Cyflawni'r Hyn sydd o Bwys'
- Ein Dull o ran Cynnwys Tenantiaid
- Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli - Diweddariad
- Cyflwyno'r Rhaglen Credyd Cynhwysol Lawn yn Sir Gaerfyrddin
- Safonau Llyfrgelloedd Cymru
- Rheoli Diogelwch Tân mewn Tai Gwarchod a Blociau o Fflatiau Anghenion Cyffredinol
- Canllawiau Atodol Drafft ynghylch Ynni Gwynt ac Ynni'r Haul
- Strategaeth Gorfforaethol 2018-2023 - Diweddariad Mehefin 2019

Adolygiad Gorchwyl a Gorffen - Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan y Pwyllgor i adolygu'r ddarpariaeth o ran byngalos fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp ym mis Hydref 2018 ac mae pedwar cyfarfod wedi'u cynnal hyd at fis Ebrill 2019, lle rhoddwyd ystyriaeth i amrywiaeth eang o faterion a gwybodaeth am ddarparu tai cymdeithasol y Cyngor. Roedd ymchwiliadau'r Grŵp yn mynd rhagddynt ar ddiwedd mis Ebrill 2019, a rhagwelwyd y byddai adroddiad terfynol yn manylu ar y casgliadau a'r argymhellion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried a'i gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol yn ystod blwyddyn y cyngor 2019/2020.

Ymweliadau Safle - Ymwelodd y Pwyllgor â'r cyfleusterau canlynol:-

- Amgueddfa Abergwili
- Llyfrgell Caerfyrddin
- Canolfan Achub Bywyd yr RNLI ym Mhorth Tywyn
- Parc Gwledig Pen-bre

Sesiynau Datblygu - Yn ogystal â'r sesiynau datblygu hynny a restrir ar dudalennau 11 a 12 , y cafodd yr holl aelodau eu gwahodd iddynt, roedd y Pwyllgor hefyd yn bresennol mewn seminarau adrannol eraill ynghylch y gyllideb.

Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant 6

Mae gan y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant 19 aelod ac mae pump o'r rhain yn aelodau cyfetholedig. Dim ond y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant sydd ag aelodau cyfetholedig ac maent yn cynrychioli'r canlynol:

- Aelod fel Rhiant-lywodraethwr ar gyfer Ardal 1 – Dinefwr
- Aelod fel Rhiant-lywodraethwr ar gyfer Ardal 2 – Caerfyrddin
- Aelod fel Rhiant-lywodraethwr ar gyfer Ardal 3 – Llanelli
- Cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig
- Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru

Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Safonau Addysgol a Pherfformiad Ysgolion
- Anghenion Dysgu Ychwanegol

- Addysg Cyfrwng Cymraeg
- Moderneiddio Ysgolion
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Gwasanaethau Ieuenctid
- Troseddau Ieuenctid
- Prydau Ysgol
- Gwasanaethau Plant gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd

Cyfarfodydd y Pwyllgor – Yn ystod 2018/19, yn ogystal â'i adroddiadau monitro rheolaidd, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Cynnig y Rhaglen Moderneiddio Addysg i Gynyddu Nifer Lleoedd Ysgol Gynradd Gymunedol Gors-las o 110 i 210
- Cynnig y Rhaglen Moderneiddio Addysg i Ddarparu Addysg Feithrin yn Ysgol Parc y Tywyn trwy gynyddu ei Hystod Oedran o 4-11 i 3-11
- Rhaglen TIC ar gyfer Ysgolion
- Diweddariad am Raglen Drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Diweddariad am y Gwasanaeth Cerdd - mis Gorffennaf 2018
- Dulliau o Sicrhau 'Ymddygiad Cadarnhaol' yn Ysgolion Sir Gaerfyrddin
- Cefnogi Dechrau Gyrfa Addysgu, Rolau Arweinyddiaeth a Phrifathrawiaeth
- Addysg Ddewisol yn y Cartref: Ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i Ohebiaeth
- Gweithredu Ymweliadau Cymorth Craidd ERW ac Ysgolion sy'n Peri Pryder
- Atgyfeiriad o'r Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd - Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion
- Canlyniadau Arholiadau ac Asesiadau Athrawon (Amodol) a Data Presenoldeb yn yr Ysgolion (Amodol)
- Cyllid Fformiwla i Ysgolion
- Cyllideb Ymddeoliad Gwirfoddol Cynnar a Dileu Swyddi
- Fforwm Derbyniadau Sir Gaerfyrddin - Adolygiad o Gylch Derbyn 2018/19 a Threfniadau Derbyn ar gyfer 2019/20 a 2020/21
- Rhaglen Moderneiddio Addysg - Côl Trefniadaeth Ysgolion 2018
- Cynllun Busnes ERW 2018/19
- Perfformiad a Chyflawniad Ysgolion 2017/18
- Adroddiad Cynnydd y Rhaglen Moderneiddio Addysg hyd fis Rhagfyr 2018
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Menter Ysgolion Iach
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- Strategaeth Cydraddoldeb a Llesiant Ddrafft
- Y Rhaglen Moderneiddio Addysg - Cynnig i Newid Natur y Ddarpariaeth yn Ysgol Rhys Prichard, Ysgol Griffith Jones, Ysgol Llangynnwr ac Ysgol Llys Hywel
- Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Rhoi Plant yn Gyntaf
- Adroddiad Blynyddol ar Weithgarwch Rhianta Corfforaethol

Adolygiad Gorchwyl a Gorffen - Cytunodd y Pwyllgor i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu Addysg y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yn Sir Gaerfyrddin ym mis Mawrth 2018. Cyflwynwyd canfyddiadau'r Grŵp i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2019, lle penderfynwyd anfon yr adroddiad ymlaen at y Bwrdd Gweithredol i'w gymeradwyo.

Ymweliadau safle - Dechreuodd y rhaglen ymweliadau ysgol ym mlwyddyn y cyngor 2009/10 ac erbyn diwedd mis Hydref 2015, roedd y Pwyllgor wedi ymweld â holl ysgolion cynradd, holl ysgolion uwchradd a holl ysgolion arbennig y sir ynghyd â'r 3 canolfan teulu integredig. Yn 2016/17 dechreuodd y Pwyllgor ail-ymweld ag ysgolion, gan gysylltu â rhaglen waith y Panel Gwella Ysgolion a chynigion Rhaglen Moderneiddio Addysg yr Awdurdod. Teimlai'r Pwyllgor fod yr ymweliadau ysgol yn tueddu i ganolbwyntio ar faterion o ran yr eiddo a rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad ('Fframwaith Ymweliadau Ysgol y Pwyllgor Craffu'), a oedd yn cynnig bod pwyslais y rhaglen ymweliadau ysgol yn cael ei newid i hwyluso trafodaeth ehangach am agweddau y penderfynwyd eu bod yn fwy o flaenoriaeth, megis arweinyddiaeth, addysgu, dysgu a chanlyniadau. Fodd bynnag, nid y bwriad yw atal neu anwybyddu unrhyw elfennau sy'n ymwneud â'r safle a allai godi ac sydd angen sylw.

Roedd y Pwyllgor wedi parhau â'i raglen o ymweliadau ysgol yn 2018/19 gyda'r pwyslais newydd fel y nodir uchod ac ymwelwyd â'r 3 ysgol ganlynol yn ystod Tymor yr Haf/Hydref 2018:-

- Maes y Gwendraeth
- Ffairfach
- Llanmiloe

Sesiynau Datblygu - Yn ogystal â'r sesiynau datblygu hynny a restrir ar dudalennau 11 a 12 , y cafodd yr holl aelodau eu gwahodd iddynt, roedd y Pwyllgor hefyd yn bresennol mewn seminarau adrannol eraill ynghylch y gyllideb.

Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

Mae gan y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd 14 o aelodau ac mae ei gylch gwaith yn cwmpasu'r meysydd canlynol:-

- Gwasanaethau llinell flaen gweladwy (e.e. priffyrdd, glanhau strydoedd, gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu, rheoli canol trefi, cynnal a chadw tiroedd, cyfleusterau cyhoeddus, cysgodfannau bysiau a chynnal meysydd parcio)
- Cynllun Gwastraff Rhanbarthol
- Trafnidiaeth
- Safonau Masnach
- Cynnal a chadw cerbydau
- Diogelwch Ffyrdd
- Parcio ceir ar ac oddi ar y stryd a pharcio i breswylwyr
- Cadwraeth
- Rheoli'r Draethlin a Diogelu'r Arfordir
- Tir Halogedig
- Diogelu'r Cyhoedd (Llygredd Aer, Safonau Masnach, Rheoli Plâu ac Iechyd yr Amgylchedd)
- Materion Diogelwch Cymunedol - a nodwyd yn y Strategaethau Corfforaethol Diogelwch Cymunedol a Lleihau Troseddu ac Anhrefn, gan weithio gyda'r partneriaid perthnasol
- Gorfodi Materion Amgylcheddol (e.e. sbwriel, baw cŵn)
- Gorfodi Rheolau Cynllunio
- Rheoli Plâu

Cyfarfodydd y Pwyllgor – Yn ystod 2018/19, yn ogystal â'i adroddiadau monitro rheolaidd, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Cynllun Cyflawni Gwasanaeth - Gwasanaethau Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer 2018/19
- Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Materion Defnyddwyr a Busnes 2017/18
- Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chanmoliaeth 2017/18
- Adroddiad Blynyddol ar Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau 2016/17 ac Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynllunio Ardal ynghylch Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol 2017
- Y diweddaraf am y cynnydd a wnaed wrth gyflwyno Blaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin
- Diweddariad Blynyddol am Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer
- Diweddariad am y Rhaglen Buddsoddi mewn Priffyrdd, Troedffyrdd a Diogelwch Ffyrdd
- Adolygu'r Prosiect Newid i Oleuadau LED
- Diweddariad am y Tîm Gorfodi Materion Amgylcheddol
- Strategaeth Feicio Sir Gaerfyrddin
- Polisi Gamblo Drafft
- Adolygiad o'r Polisi Trwyddedu
- Canllaw Dylunio Priffyrdd Sir Gaerfyrddin
- Adroddiad ar Bolisi Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Adolygiad Gorchwyl a Gorffen - Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan y Pwyllgor i adolygu'r ddarpariaeth o ran cynnal a chadw perthi ac ymylon priffyrdd ym mis Tachwedd 2017. Cyflwynwyd canfyddiadau'r Grŵp i'r Pwyllgor ym mis Mai 2018, lle penderfynwyd anfon yr adroddiad ymlaen at y Bwrdd Gweithredol i'w ystyried.

Ymweliadau safle - Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle gan y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2018/19, ond cymerodd y Pwyllgor ran mewn digwyddiad codi sbwriel ar draeth Llanelli ym mis Medi 2018. Roedd y thema yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Cyngor i fynd i'r afael â llygredd plastig yn ogystal â thalu sylw i'r ffaith mai 2018 oedd "Blwyddyn y Môr". Yn dilyn y digwyddiad codi sbwriel, cafodd y Pwyllgor ei friffio ynghylch pwerau a phrosesu gorfodi a materion cyfredol mewn perthynas â sbwriel a glanhau.

Sesiynau Datblygu -- Yn ogystal â'r sesiynau datblygu hynny a restrir ar dudalennau 11 a 12, y cafodd yr holl aelodau eu gwahodd iddynt, roedd y Pwyllgor hefyd yn bresennol yn y sesiynau canlynol:-

- Cyflwyniad yr Uned Benthyca Arian yn Anghyfreithlon
- Seminarau Adrannol ynghylch y Gyllideb

Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau

Mae gan y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau 13 o aelodau ac mae ei gylch gwaith yn cwmpasu'r meysydd canlynol:-

- Polisi Corfforaethol, Strategaeth a Monitro Perfformiad
- Materion trawsbynciol
- Datblygu Cynaliadwy
- Cyllid
- Eiddo

- Technoleg Gwybodaeth
- Cyfathrebu
- Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Archwilio
- Caffael
- Cynnal a Chadw nad yw'n ymwneud â Thai
- Datblygu Trefniadaeth
- Adnoddau Dynol
- Cynlluniau Argyfwng
- Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Cyfarfodydd y Pwyllgor – Yn ystod 2018/19, yn ogystal â'i adroddiadau monitro rheolaidd, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Adroddiad Chwarterol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth
- Adroddiadau Monitro Perfformiad Adrannol a Chorfforaethol
- Monitro Absenoldeb Salwch
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin
- Adroddiad Blynyddol 2017/18 ar yr iaith Gymraeg
- Y Strategaeth Trawsnewid Digidol - Adroddiad Blynyddol 2018
- Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2017/18
- Diweddariad am y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a'r Rhaglen Swyddfeydd
- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chanmoliaeth 2017/18
- Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC) 2017/18 a Chynllun Busnes 2018/19-2020/21
- Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant Llanelli

Adolygiad Gorchwyl a Gorffen - Ni chynhaliodd y Pwyllgor adolygiad Gorchwyl a Gorffen yn ystod 2018/19. Rhoddir ystyriaeth i bynciau eraill y gellid eu harchwilio ymhellach yn ystod 2019/20.

Ymweliadau safle - Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle gan y Pwyllgor yn ystod 2018/19.

Sesiynau Datblygu - Yn ogystal â'r sesiynau datblygu hynny a restrir ar dudalennau 11 a 12 , y cafodd yr holl aelodau eu gwahodd iddynt, roedd y Pwyllgor hefyd yn bresennol mewn seminarau adrannol eraill ynghylch y gyllideb.

Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Mae gan y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd 14 o aelodau ac mae ei gylch gwaith yn cwmpasu'r meysydd canlynol:-

- Gwasanaethau Cymdeithasol i Bobl Hŷn, gan gynnwys Safonau Maeth
- Oedolion ag Anableddau Dysgu
- Cymorth i Ofalwyr
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Diogelu Oedolion

- Integreiddio'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gwasanaethau Dementia

Cyfarfodydd y Pwyllgor – Yn ystod 2018/19, yn ogystal â'i adroddiadau monitro rheolaidd, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Strategaeth Ranbarthol Ddrafft - "Bywydau Mwy Diogel, Teuluoedd Iachach" – Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ein Cymunedau 2018-2022
- Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion 2016/18
- Polisi Cynllunio'r CDLl o ran anableddau
- Darpariaeth Pryd ar Glud
- Cynllunio a Datblygu'r Gweithlu: Dull Rhanbarthol
- Polisi Taliadau Uniongyrchol
- Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol - Ar ôl Ymgynghori a'r Camau Nesaf
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Diwygiadau Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Codi Tâl ar Oedolion am Wasanaethau
- Diweddariad am Weithio mewn Partneriaeth a Gweithio'n Rhanbarthol
- Gwasanaethau a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl
- Gwasanaethau Eirioli Rhanbarthol

Adolygiad Gorchwyl a Gorffen - Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan y Pwyllgor i adolygu Unigrwydd yn Sir Gaerfyrddin. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp ym mis Mehefin 2018 a chynhaliwyd naw cyfarfod hyd at fis Mai 2019. Roedd ymchwiliadau'r grŵp yn mynd rhagddynt ar yr adeg honno a rhagwelwyd y byddai adroddiad terfynol yn manylu ar y casgliadau a'r argymhellion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried a'i gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol ym mlwyddyn y cyngor 2019/20.

Ymweliadau safle - Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle gan y Pwyllgor yn ystod 2018/19.

Sesiynau Datblygu - Yn ogystal â'r sesiynau datblygu hynny a restrir ar dudalennau 11 a 12, y cafodd yr holl aelodau eu gwahodd iddynt, roedd y Pwyllgor hefyd yn bresennol yn y sesiynau canlynol:-

- Cyflwyniad ar y gwasanaeth a ddarperir gan Geir Cefn Gwlad
- Cyflwyniad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a oedd yn rhoi trosolwg o'r Adroddiad Terfynol ynghylch Ymgynghori - Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol

- Seminarau Adrannol ynghylch y Gyllideb

Gweithgareddau Eraill yn ystod 2018/19

Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu
Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn cwrdd fel arfer bob chwarter i drafod materion sy'n ymwneud â'r swyddogaeth graffu. Sefydlwyd y Fforwm yn 2004 ac fe'i cadeirir gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau, sydd hefyd yn 'Hyrwyddwr Craffu' i'r Cyngor. Yn ystod 2017/18 cyfarfu'r Fforwm ar bedwar achlysur.

Sesiynau Datblygu Aelodau
Cynhaliwyd y seminarau/sesiynau datblygu canlynol yn ystod 2018/19, a chafodd yr holl aelodau eu gwahodd iddynt:-

- Gweithdy i aelodau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cynhadledd Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin
- Seminar Digartrefedd
- Seminar ar y rhaglen Trawsnewid Digidol
- Seminar Eiriolaeth Gofalwyr ac Iechyd Meddwl Annibynnol 'Eiriol
- Seminar Trawsnewid i Wneud Cynnydd
- Seminar Gosodiadau ar Sail Dewis
- Hyfforddiant Côd Ymddygiad
- Seminar Gwella eich Sgiliau Gwneud Penderfyniadau
- Hyfforddiant Mentora
- Seminar gyda Dŵr Cymru
- Sesiwn Galw Heibio - Gwefannau blaenllaw a'r CDLl diwygiedig (gan gynnwys safleoedd ymgeisio)
- Hyfforddiant Craffu - Canolfan Craffu Cyhoeddus
- Seminar ar Ddatblygu Economaidd yn Sir Gaerfyrddin
- Hyfforddiant Mod.gov

Yn ogystal, cynhaliwyd nifer o seminarau adrannol ynghylch y gyllideb.

Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW
Mae Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW yn grŵp rhanbarthol sy'n cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y chwe phwyllgor craffu addysg ledled consortiwm ERW. Nod y Grŵp yw sicrhau bod craffu cyson ledled y rhanbarth ar faterion sydd o fewn cylch gorchwyl ERW. Mae'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod eitemau ERW a manteisir hefyd ar y cyfle i ystyried eitemau eraill sydd o ddiddordeb cyffredin ym maes addysg. Cynhelir y cyfarfodydd ar sail rota rhwng y chwe awdurdod lleol sy'n rhan o gonsortiwm ERW. Mae Cadeirydd newydd i bob Grŵp ac fel rheol ef neu hi yw Cadeirydd pwyllgor yr awdurdod lleol lle y cynhelir y Grŵp. Mae cyfarfodydd blaenorol wedi bod yn gynhyrchiol ac ystyria Estyn y Grŵp yn gryfder i'r consortiwm. Caiff y cyfarfodydd eu gweinyddu gan Dîm Craffu Dinas a Sir Abertawe. Mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant wedi mynychu tri chyfarfod o'r grŵp rhanbarthol hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cynhaliodd Cyngor Sir Caerfyrddin gyfarfod grŵp ym mis Mawrth 2018 a bydd yn ei gynnal eto ym mis Mai 2020.

Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Bae Abertawe
Mae Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn bwyllgor craffu rhanbarthol sy'n cynnwys 12 aelod anweithredol o bedwar Awdurdod Cyfansoddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2018 i adolygu a chraffu ar Gyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Nod y Cyd-bwyllgor Craffu yw sicrhau mwy o atebolrwydd cyhoeddus o ran penderfyniadau a wneir gan y Cyd-bwyllgor ac unrhyw un o'i is-bwyllgorau a chyrff cysylltiedig. Mae hyn yn ategu gwaith craffu Awdurdodau Lleol ar brosiectau unigol o'r Fargen Ddinesig sy'n rhan o'u maes gorchwyl. Cynhelir y Cyd-bwyllgor Craffu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Cyd-bwyllgor Craffu yn cwrdd bob chwarter. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf gan Gyngor Sir Caerfyrddin ym mis Tachwedd 2018. Mae tri aelod o Gyngor Sir Caerfyrddin yn aelodau o'r Cyd-bwyllgor Craffu, gan gynnwys yr Hyrwyddwr Craffu.

Rhwydwaith Rheolwyr Craffu Cymru

Roedd swyddogion yn bresennol yng nghyfarfod y Rhwydwaith Rheolwyr Craffu ym mis Hydref 2018. Ymysg y materion a drafodwyd oedd y canlynol:

- Trosolwg a Chraffu Swyddfa Archwilio Cymru - Adroddad Addas ar gyfer y Dyfodol
- Hunanwerthuso ac adolygu gan gymheiriaid
- Craffu ar y cyd
- Ymgysylltu â'r cyhoedd
- Mesur canlyniadau craffu
- Fframwaith Craffu Cenedlaethau'r Dyfodol
- Gweithgor Diwygio Llywodraeth Leol

Bu'n ddefnyddiol mynychu'r cyfarfodydd hyn o ran rhoi persbectif cenedlaethol ar faes craffu a rhannu syniadau a materion trawsbynciol sy'n pontio pob maes. Maent hefyd yn cynnig cipolwg defnyddiol o ddatblygiadau'r dyfodol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cytuno i drefnu a hwyluso dau gyfarfod o'r Rhwydwaith Rheolwyr Craffu bob blwyddyn.

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
Mae blaenrhaglenni gwaith ar gyfer yr holl Bwyllgorau Craffu ar gael ar dudalennau craffu'r Awdurdod. Penodir Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu yn unol â Rhan 6 o'r Mesur.

Edrych Ymlaen at 2019/20
Rhaid i bob Pwyllgor Craffu ddatblygu a chyhoeddi blaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac adroddiad blynyddol sy'n amlinellu gwaith y flwyddyn flaenorol. Mae'r holl adroddiadau blynyddol ar gyfer 2018/19 wedi'u cwblhau ac maent yn cael eu cymeradwyo ar hyn o bryd gan y Pwyllgorau Craffu perthnasol.

Ar ddechrau bob blwyddyn y cyngor, mae'r aelodau'n trafod y pynciau sy'n flaenoriaeth i'w Pwyllgor ac yn datblygu blaenraglen waith ddrafft. Yn ogystal, mae'r gwaith o gynllunio blaenraglen waith yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried Sesiynau Datblygu Aelodau posibl a phynciau craffu y gellid ymchwilio iddynt ymhellach. Mae'r blaenraglenni gwaith a'r adroddiadau blynyddol bellach ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu pwysau cyllidebol difrifol ac mae angen iddo barhau i nodi a chyflawni rhagor o arbedion ariannol ac arbedion effeithlonrwydd. Un o lwyddiannau allweddol y Cyngor fyddai cynnal a chyflwyno gwelliannau i wasanaethau ac, ar yr un pryd, bodloni'r targedau gofynnol o ran arbedion. Bydd y pwyllgorau craffu yn parhau i gyfrannu a herio mewn modd adeiladol er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i oresgyn yr heriau hyn.

Byddid yn parhau i graffu ar bolisïau, cynlluniau a pherfformiadau allweddol, a'u monitro. Mae polisïau a chynlluniau 'trosfwaol' y Cyngor yn cynnwys y canlynol: yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella, yr Amcanion Llesiant, y Cynllun Heneiddio'n Dda a'r Strategaeth Gorfforaethol. Mae'r polisi, strategaeth a pherfformiad corfforaethol yn dod o fewn maes gorchwyl y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau. Fodd bynnag, mae cynlluniau ac amcanion o'r fath hefyd yn pontio rhwng meysydd craffu eraill. Lle bo'n briodol, bydd yr holl Bwyllgorau Craffu yn ystyried elfennau o'r cynlluniau a'r polisïau sy'n berthnasol i'w cylch gwaith. Ceisir dod o hyd i atebion arloesol i leihau dyblygu a gwastraff, megis yr uwch-bwyllgor craffu a gynhaliwyd yn ystod 2016/17 a gwneud mwy o ddefnydd o waith cyd-bwyllgorau.

Dyma rai meysydd allweddol eraill y bydd y pwyllgorau yn rhoi sylw iddynt:-

Cymuned - Cynllun Busnes Adeiladu Rhagor o Dai; Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar y Gwasanaethau Cynllunio; Cynllun Datblygu Lleol - Adroddiad Monitro Blynyddol; Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2018-2033; Adroddiad Diweddaru Credyd Cynhwysol; Ymgynghoriad ynghylch Cyllideb Refeniw 2020/21 -2022/23; Cynllun Busnes yr Adran Cymunedau; Cynllun Busnes Adrannol y Prif Weithredwr; Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd; Taliadau Gwasanaeth y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti 2020/21; Safonau Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2020–2023); Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2018/19: Sir Gaerfyrddin; Diweddariad am Osodiadau ar Sail Dewis.

Addysg a Phlant - Adroddiadau Rhaglen Moderneiddio Addysg ar Gynigion i Newid Darpariaeth mewn Ysgolion Amrywiol; Canlyniadau Amodol Arholiadau a Data Presenoldeb Ysgolion; Darpariaeth Iechyd Meddwl mewn Addysg; Recriwtio a Chadw Staff; Y Cwricwlwm Newydd; Cynllun Busnes Adran Addysg a Phlant; Gwasanaethau Ieuenctid; Hunan-werthuso Gwasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol; Hyrwyddo Arferion Ymddygiad Cadarnhaol mewn Ysgolion; Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; Adolygiad o'r Gwasanaeth Ymddygiad; Diweddariad am Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Diogelu'r Amgylchedd a'r Cyhoedd - Ymgynghoriad ynghylch Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus; Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynllunio Ardal ynghylch Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol; Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus; Diweddariad am Deithio Llesol; Diweddariad am Flaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd; Adroddiad Llifogydd Adran 19 Storm Callum; Datganiad Blynyddol Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd Adroddiad Blynyddol Materion Defnyddwyr a Busnes Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chanmoliaeth; Cynllun Gweithredu Carbon Sero-net; Cynllun Gwella Hawliau Tramwy; Blaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd 2016-19 - Adroddiad ar Gyflwyno i Lywodraeth Cymru; Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd; Cynllun Busnes yr Adran Cymunedau; Cynllun Busnes Adrannol y Prif Weithredwr; Adroddiad Blynyddol Diogelu'r Amgylchedd a Chynllun Cyflawni Gwasanaeth; Diweddariad am y Rhaglen Buddsoddi mewn Priffyrdd, Troedffyrdd a Diogelwch Ffyrdd; Diweddariad am yr Adolygiad o Gasgliadau Gwastraff Diweddariad Blynyddol am Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer; Diweddariad am yr Adolygiad o Glanhau.

Polisi ac Adnoddau - Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin a Diweddariad y BGC; Adroddiad Monitro Absenoldeb Salwch - Diwedd Blwyddyn; Adroddiad Blynyddol ynghylch yr Iaith Gymraeg; Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar y Strategaeth Trawsnewid Digidol; Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol; Adroddiad Blynyddol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth; Adroddiad Blynyddol TIC; Adroddiad Blynyddol ynghylch Cwynion a Chanmoliaeth; Cynllun Busnes Adrannol y Prif Weithredwr; Cynllun Busnes y Gwasanaethau Corfforaethol; Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd; Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys; Adroddiad Monitro Perfformiad Adrannol o ran yr Amcanion Llesiant.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Adroddiad Diwedd Blwyddyn Cwynion a Chanmoliaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion; Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynllunio Ardal ynghylch Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol; Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau; Adroddiad Blynyddol Drafft Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol; Adroddiad Blynyddol ynghylch Amcanion Llesiant; Adroddiad Blynyddol - Diogelu; Archwiliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaethau Pobl Hŷn; Datblygu a Chynnal y Gweithlu; Y Rhaglen Drawsnewid; Strategaeth Anableddau Dysgu; Cynllun Busnes yr Adran Cymunedau; Gwasanaethau a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc (y diweddaraf am y Fforwm Aml-asiantaeth).

Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr. Mae'r cymorth a ddarperir yn cynnwys:-

- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu

- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion

- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a Fforwm Bwrdd Gweithredol y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu

- Rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi

- Rheoli'r gwaith o gydlynu a datblygu'r blaenraglenni gwaith ym maes Craffu ar y cyd ag Aelodau'r pwyllgorau Craffu

- Rheoli a chydlynu'r gwaith o adolygu Craffu, gan gynnwys y gwaith o redeg grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes Craffu, llunio adroddiadau law yn llaw â'r grwpiau a helpu i weithredu a monitro'r adolygiadau sydd wedi eu cwblhau

- Rheoli rhaglen datblygu aelodau'r pwyllgorau craffu.

- Anfon yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys rhaglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch e-bost:
craffu@sirgar.gov.uk

Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn ystod 2018/19

Polisi ac Adnoddau

Y Cynghorydd Giles Morgan
Cadeirydd
(Dyffryn y Swistir)
Annibynnol

Y Cynghorydd Ken Howell
Is-gadeirydd
(Llangeler)
Plaid Cymru

Cymunedau

Y Cynghorydd Sharen Davies
Cadeirydd (o CCB 16/05/18 i 06/03/19)
(Llwynhendy)
Llafur

Y Cynghorydd Gareth Thomas
Is-gadeirydd
(Yr Hendy)
Plaid Cymru

Y Cynghorydd Fozia Akhtar
Cadeirydd (o 09/05/19 i CCB ar 15/05/19)
(Llwynhendy)
Llafur

Addysg a Phlant

Y Cynghorydd Darren Price
Cadeirydd
(Gors-las)
Plaid Cymru

Y Cynghorydd Edward Thomas
Is-gadeirydd
(Llandeilo)
Annibynnol

Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

Y Cynghorydd John James
Cadeirydd
(Porth Tywyn)
Llafur

Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen
Is-gadeirydd
(Gors-las)
Plaid Cymru

Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Y Cynghorydd Gwyneth Thomas
Cadeirydd
(Llangennech)
Plaid Cymru

Y Cynghorydd Ieuan Davies
Is-gadeirydd
(Llanybydder)
Annibynnol

Geirfa

ADY = Anghenion Dysgu Ychwanegol

AGC – Arolygiaeth Gofal Cymru

ERW – Ein Rhanbarth ar Waith

RhMA Rhaglen Moderneiddio Addysg

NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

PSB – y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

TIC - Trawsnewid i Wneud Cynnydd

CSCA - Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

CLlLC - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru